| | |
|---|---|
| **Adroddiad i:** | Pwyllgor Llywio'r Iaith Gymraeg |
| **Dyddiad y cyfarfod:** | 21 Tachwedd 2024 |
| **Aelod Arweiniol/Swyddog** | Cynghorydd Emrys Wynne/ Gary Williams, Cyfarwyddwr Corfforaethol |
| **Awdur yr adroddiad:** | Gerallt Lyall, Swyddog Iaith Gymraeg, Catrin Hughes-Owen Arweinydd Tîm – Rheoli Cyfathrebu ac Ymgyrchoedd |
| **Teitl:** | Adroddiad Prif Ffrydio'r Gymraeg yn y Cynllun Corfforaethol 2022-27 |

## 1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

Sut i sicrhau prif ffrydio'r Gymraeg yn y Cynllun Corfforaethol arfaethedig a sut i fonitro hyn.

## 2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

I drafod a chytuno ar sut rydym yn sicrhau bod yr Iaith Gymraeg a Diwylliant Cymreig yn cael eu prif ffrydio drwy chwe thema'r Cynllun Corfforaethol a sut gellid monitro hyn er mwyn sicrhau effaith bositif ar yr iaith a diwylliant ar draws y sir.

## 3. Beth yw'r argymhellion?

I drafod yr awgrymiadau yn rhan 4.3 isod ar gyfer prif ffrydio'r Gymraeg drwy themâu'r Cynllun Corfforaethol.

I gytuno ar rôl y Pwyllgor Llywio yn llywodraethu ar a monitro'r gwaith yma.

## 4. Manylion yr adroddiad

4.1 Gyda themâ'r Cynllun Corfforaethol 2022 i 2027 bellach wedi eu gostwng o 9 i 6, ac yn hyn o beth, y thema Iaith Gymraeg a Diwylliant yn peidio â bod yn thema arwhân, mae'n holl bwysig sicrhau bod yr iaith a diwylliant yn cael eu prif ffrydio i mewn i'r chwe thema sy'n weddill.

4.2 Mae'r adroddiad hwn yn fan cychwyn i'r Pwyllgor Llywio drafod beth yw'r broses orau i gyflawni hyn ac yn cynnig argymhellion ar sut gellir gwneud hyn wrth symud ymlaen.

4.3 Mae cynigion isod yn gosod allan sut gellir cyflawni hyn a beth fyddai rôl y Pwyllgor Llywio yn cyflawni'r gwaith yma:

- Pwyllgor Llywio'r Gymraeg i arwain ar y gwaith o lywodraethu a goruchwylio dangosyddion perfformiad ac unrhyw weithgareddau sy'n ymwneud â'r iaith Gymraeg a diwylliant i gefnogi'r Cynllun Corfforaethol, gyda'r nod bod y gwaith monitro hwn yn cyd-fynd â gwaith y Pwyllgor o fonitro ac adrodd ar Strategaeth Iaith Gymraeg y Sir 2023-28.

- Dylai Pwyllgor Llywio'r Gymraeg fodloni ei hun y cymerir pob cyfle rhesymol i fanteisio ar gyfleoedd i brif ffrydio'r Gymraeg a'i diwylliant o fewn pob thema yn y Cynllun Corfforaethol.

- Dylai'r Pwyllgor fod yn glir bod y Cynllun Corfforaethol yn blaenoriaethu dangosyddion a gweithgareddau allweddol. Mae fframweithiau rheoli perfformiad manwl a llawnach ar waith Strategaeth y Gymraeg 2023-28 a Chynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg.

- Yn ei gylch gorchwyl, gallai'r Pwyllgor Llywio gynnwys diben ychwanegol i weithredu fel 'cyfaill beirniadol' er mwyn cefnogi gwasanaethau i gryfhau'r elfennau am yr iaith Gymraeg a diwylliant Cymraeg o fewn yr Asesiadau Effaith Lles sydd dan ddatblygiad ganddynt.

- Bod y Byrddau sydd wedi eu sefydlu i gyflawni themâu'r Cynllun Corfforaethol yn sicrhau bod y Gymraeg a Diwylliant Cymru yn rhan greiddiol o'u ffordd o feddw a'u cynllunio, a'u bod yn gallu dangos sut maen nhw'n mantiesio ar gyfleoedd i brif ffrydio'r Gymraeg.

## 5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Cynllun Corfforaethol 2022 i 2027: Y Sir Ddinbych a Garem?

Mae'r penderfyniad yn cyfrannu at ddatblygiad Sir Ddinbych â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu sy'n un o amcanion allweddol Cynllun Corfforaethol y Cyngor 2022-27.

## 6. Beth fydd y gost a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

Dim cost, ond bydd gofyn i wasanaethau sicrhau bod ystyriaeth flaenllaw i'r Gymraeg a diwylliant Gymreig wrth gynllunio eu rhaglen waith flynyddol.

## 7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o Effaith ar Les?

Dim angen Asesiad o Effaith ar Les – trafodaeth gychwynnol.

## 8. Pa ymgynghoriadau a gynhaliwyd gyda Chraffu ac eraill?

Ymgynghorwyd ag Aelod Arweiniol y Cabinet dros yr Iaith Gymraeg a'r Cyfarwyddwr Corfforaethol Arweiniol.

## 9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid

Amherthnasol.

## 10. Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?

Amherthnasol – trafodaeth gychwynnol.

## 11. Pŵer i wneud y Penderfyniad

11.1 Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011